Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol, Cynllun Gwasanaeth 2018-22 (2020/21)

Cynnwys

Cyflwyniad a Chefndir	Tudalen 1
Cyllid	Tudalen 3
Rhaglenni a Phrosiectau Mawr 2020/21	Tudalen 3
Amcanion / Camau Gweithredu Cynllun Gwasanaeth 2020/21	Tudalen 6
Mesurau Perfformiad	Tudalen 15
Cofrestr Risg y Gwasanaeth	Tudalen 18

Cyflwyniad a Chefndir

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff sector cyhoeddus bennu amcanion Llesiant yn eu Cynlluniau Corfforaethol. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyflawni mewn modd cynaliadwy ac ystyried ei egwyddorion sef y '5 Ffordd o Weithio'. Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Dinas Casnewydd 2017-22 wedi pennu pedwar amcan Llesiant sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni Nodau Llesiant Cymru:

1. Gwella sgiliau, deilliannau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth;
2. Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio wrth amddiffyn yr amgylchedd;
3. Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol a gwydn, ac
4. Adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy.

Nodau Adfer Strategol Casnewydd

Ar ddechrau 2020, wynebodd Cymru bandemig Covid 19 sydd wedi effeithio ar y modd y mae Cyngor Casnewydd a'r Gwasanaethau i Oedolion yn darparu ei wasanaethau i gymunedau. Ymateb cychwynnol y Cyngor oedd diogelu gwasanaethau rheng flaen, cefnogi'r rhai sy'n agored i niwed yn y gymuned a sicrhau parhad gwasanaethau. Ar lwybr adferiad y Cyngor ac wrth adfer gwasanaethau, mae Cyngor Casnewydd wedi sefydlu Nodau Adfer Strategol a fydd yn galluogi'r Cyngor i ddysgu o'r effeithiau a ddaeth yn sgil Covid 19, yr heriau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n wynebu gwasanaethau a'r cyfleoedd sydd wedi deillio o ffyrdd newydd o weithio. Bydd y Nodau hyn yn cefnogi Cynllun Corfforaethol y Cyngor a bydd y Cynllun Gwasanaeth hwn yn helpu i gyflawni'r nodau hyn.

Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol

Mae dinasyddion Casnewydd yn cynrychioli grŵp amrywiol o bobl, a phennir eu hanghenion gofal cymdeithasol gan ystod eang o ffactorau gan gynnwys oedran, iechyd corfforol a meddyliol ac amgylchiadau economaidd.

Yr heriau i wasanaethau oedolion a chymunedol yw bod y boblogaeth yn tyfu a bod pobl yn byw'n hirach. Felly, rhaid inni ddod o hyd i atebion cynaliadwy a fydd yn ateb galwadau newydd mewn hinsawdd o leihau cyllidebau.

Mae hyn yn gofyn am atebion newydd sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal, gan weithio mewn partneriaeth gydag iechyd i hybu annibyniaeth ac annog llai o ddibyniaeth ar wasanaethau statudol. Mae darparwyr y trydydd sector ac annibynnol yn darparu gwasanaethau ar ran yr Awdurdod Lleol ac mae angen i ni sicrhau bod pob partner yn darparu gofal a chymorth yn unol â'n gofynion strategol.

Mae poblogaeth y Ddinas wedi'i dosbarthu'n anghyfartal gyda'r ardaloedd ar yr ymylon dwyreiniol a gorllewinol, Maerun, Cas-bach, Pen-hw, a Llandevaud, ag adrannau etholiadol mawr yn ddaearyddol ond â llai o bobl yn byw ynddynt. Mae gogledd a dwyrain y Ddinas yn fwy poblog gyda chyfran uchaf cyfanswm poblogaeth y ddinas yn wardiau'r Betws, Y Malpas, Ringland ac Alway .

Yn gyffredinol, mae tueddiadau demograffig yn rhagweld niferoedd cynyddol o bobl hŷn a gostyngiad yn nifer yr oedolion iau. Mae hon yn duedd Genedlaethol ac mae iddo ganlyniadau sylweddol o safbwynt y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

Mae Unigedd Cymdeithasol ac unigrwydd yn aml yn cael eu hachosi gan golli teulu, ffrindiau, symudedd neu incwm, y mae pobl hŷn yn arbennig o agored i niwed iddo. Gall hyn effeithio'n niweidiol ar iechyd corfforol a lles medyliol. Amcangyfrifwyd bod 11,677 o bobl 65 oed a throsodd yn byw ar eu pennau eu hunain yng Nghasnewydd yn 2010, a rhagamcennir y bydd hyn yn codi i 13,160 yn 2025.

Er mwyn rheoli'r galw cynyddol yn y dyfodol yn effeithiol bydd angen i Gyngor Dinas Casnewydd gynnig gwasanaethau ataliol sy'n hybu annibyniaeth a hunanddibyniaeth, gan weithio mewn partneriaeth ag Iechyd i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddinasyddion gael gafael ar gymorth a fydd yn gwella ac yn cynnal iechyd a llesiant. Bydd y newid hwn yn galluogi dinasyddion i gynnal eu hannibyniaeth am fwy o amser a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol.

Ar hyn o bryd mae gennym tua 1500 o bobl yn derbyn cynllun gofal a chymorth ac yn cael gofal a chymorth ar draws ystod o wasanaethau. Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i sicrhau bod y rhai sydd yn ein gofal yn cael eu diogelu. O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod pob oedolyn yn cael ei amddiffyn rhag niwed neu gamdriniaeth. Mae ein mesurau Diogelu yn y Cyngor yn gosod dyletswydd ar bob swyddog a gwasanaethau cefnogi i roi gwybod am ddigwyddiadau lle credant fod unigolyn neu grŵp mewn perygl.

Mae'r pwysau a wynebir gan y gwasanaeth yn cynnwys:

- Cyllidebau'n lleihau

- Cynnydd yn y boblogaeth
- Niferoedd cynyddol o bobl dros 65 oed ac yn byw ar eu pennau eu hunain
- Cynnydd yn nifer y bobl sydd â diagnosis o ddementia
- Diffyg cyflenwad gwasanaethau dementia arbenigol
- Niferoedd uwch na'r cyfartaledd o bobl sy'n byw mewn amgylchiadau a ddiffinnir fel rhai difreintiedig
- Niferoedd uwch na'r cyfartaledd o bobl yn dioddef iechyd gwael
- Materion recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol

Cyllid

Cytunwyd ar gyllideb y Cyngor ar gyfer 2020/21 yn y Cyngor ar 27 Chwefror 2020. Yn 2020/21 mae cyllideb refeniw sylfaenol y Gwasanaethau i Oedolion wedi'i osod ar £49,261,000. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20, y gyllideb a osodwyd ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion oedd £46,744,000.

Rhaglenni a Phrosiectau Gwasanaethau i Oedolion 2020-22

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni Nodau Adfer Strategol y Cyngor, yn amcanion Cynllun Corfforaethol 2017-22, mae'r Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol yn cyflawni'r prosiectau canlynol:

Enw'r Rhaglen / Project	Disgrifiad Byr o'r Rhaglen / Project a sut mae'n cefnogi'r Cynllun Corfforaethol.	Nod(au) Adfer Strategol a gefnogir	Amcan(ion) Llesiant (Ll) y mae'n ei/u g/cefnogi	Thema(au) Corfforaethol	Dyddiad Dechrau'r Rhaglen / Project	Dyddiad Disgwyliedig Cwblhau'r Rhaglen / Project
Cartref yn Gyntaf	Amcan y prosiect hwn yw cysoni ymhellach brosesau llif cleifion wrth eu rhyddhau o'r ysbyty. Drwy gydweithio â'n partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol, y canlyniadau fydd: • Atal derbyniadau i'r ysbyty yn y dyfodol drwy sicrhau bod pecynnau gofal wedi'u teilwra ar waith. • Gweithredu cynllunio cynnar ar gyfer rhyddhau cleifion er mwyn atal oedi y gellid ei osgoi ar gyfer cleifion sy'n dychwelyd adref neu i lety priodol. • Yn ystod argyfwng COIVD 19, mae Cartref yn Gyntaf wedi parhau i ddarparu gwasanaeth rheng flaen		**Amcan Llesiant 3** Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn **Cam 2** - Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a chefnogi'r gwaith o atal, ymyrryd yn gynnar a hunanreoli salwch.	**Cymunedau Cryf**	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2021

Enw'r Rhaglen / Project	Disgrifiad Byr o'r Rhaglen / Project a sut mae'n cefnogi'r Cynllun Corfforaethol.	Nod(au) Adfer Strategol a gefnogir	Amcan(ion) Llesiant (Ll) y mae'n ei/u g/cefnogi	Thema(au) Corfforaethol	Dyddiad Dechrau'r Rhaglen / Project	Dyddiad Disgwyliedig Cwblhau'r Rhaglen / Project
	hanfodol yn unol â threfniadau rhanbarthol i gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty.					
Integreiddio'r tîm Eiddilwch i'r tîm Cyswllt Cyntaf	Amcan y prosiect hwn yw integreiddio'r tîm Eiddilwch i'r tîm Cyswllt Cyntaf. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn: • Lleihau nifer y pwyntiau mynediad i ddinasyddion Casnewydd orfod cysylltu ac ymgysylltu â'r Cyngor. • Gwella effeithlonrwydd a chysondeb y gwasanaeth Cyswllt Cyntaf i gyfeirio dinasyddion Casnewydd at y tîm(au) cywir a sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol ar gyfer eu hanghenion.	**Ddim yn berthnasol**	**Amcan Llesiant 3** Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn **Cam 1** – Cefnogi pobl i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau **Cam 2** - Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a chefnogi'r gwaith o atal, ymyrryd yn gynnar a hunanreoli salwch.	**Cymunedau Cryf**	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2021
Gwasanaeth Rhanbarthol Taliadau Uniongyrchol	Datblygu dull rhanbarthol i ddefnyddwyr gwasanaethau gael gafael ar a defnyddio'r gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol a fydd yn sicrhau: • Model gwasanaeth cyson wedi'i fabwysiadu ar draws y rhanbarth; • Gwella gwydnwch y model gwasanaeth ar gyfer dinasyddion Casnewydd yn y dyfodol • Sicrhau bod unigolion yn gallu cael mwy o annibyniaeth a chymorth wedi'i deilwra sy'n diwallu eu hanghenion.	**Ddim yn berthnasol**	**Amcan Llesiant 3** Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn **Cam 1** - Cefnogi pobl i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau.	**Cymunedau Cryf**	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2022
Gwasanaeth Penodeiaeth Rhanbarthol	Datblygu dull rhanbarthol i ddinasyddion Casnewydd gael mynediad i'r gwasanaeth Penodeiaeth. Bydd canlyniad(au) y prosiect hwn yn sicrhau:	**Ddim yn berthnasol**	**Amcan Llesiant 3** Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn **Cam 1** - Cefnogi pobl i barhau i fyw'n	**Cymunedau Cryf**	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2022

Enw'r Rhaglen / Project	Disgrifiad Byr o'r Rhaglen / Project a sut mae'n cefnogi'r Cynllun Corfforaethol.	Nod(au) Adfer Strategol a gefnogir	Amcan(ion) Llesiant (Ll) y mae'n ei/u g/cefnogi	Thema(au) Corfforaethol	Dyddiad Dechrau'r Rhaglen / Project	Dyddiad Disgwyliedig Cwblhau'r Rhaglen / Project
	• Mabwysiedir model gwasanaeth cyson ar draws y rhanbarth ar gyfer pob dinesydd. • Gwella mynediad ac effeithlonrwydd y gwasanaeth Penodeiaeth i ddinasyddion Casnewydd.		annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau			
Strategaeth Byw'n Annibynnol	Gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) a darparwyr i ddatblygu opsiynau llety cost effeithiol a chynaliadwy ar gyfer pobl ag anableddau dysgu sy'n cefnogi eu hannibyniaeth a'u llesiant. Bydd y prosiect hwn hefyd yn hwyluso'r broses o symud 5 o bobl ag anableddau dysgu i ddatblygiad newydd yn Herbert Road.	**Nod Adfer Strategol 3** Asesu effaith a chynaliadwyedd hirdymor y sector gofal cymdeithasol yng Nghasnewydd gan lywio gofynion y gwasanaeth yn y dyfodol. **<u>Nod Adfer Strategol 4</u>** Datblygu cyfleoedd i bobl gael gafael ar dai addas a fforddiadwy.	**Amcan Llesiant 3** Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn **Cam 1** - Cefnogi pobl i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau	**Cymunedau Cryf**	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2022
Pontio i'r Gwasanaethau i Oedolion	Amcan y prosiect yw gwella'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc ag anableddau dysgu sy'n pontio o'r Gwasanaethau Plant i'r Gwasanaethau i Oedolion. Bydd canlyniadau'r prosiect hwn yn: • Sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael cymorth wedi'i deilwra a fydd yn manteisio i'r eithaf ar eu cyfleoedd i sicrhau eu bod yn oedolion annibynnol. • Galluogi integreiddio'r Cyngor, iechyd a phartneriaid allweddol i gefnogi pobl ifanc drwy'r broses bontio. • Galluogi cynllunio ac ymwneud cynnar â phobl ifanc, eu teuluoedd a/neu ofalwyr i'w cefnogi drwy gydol y broses bontio.	**Ddim yn berthnasol**	**Amcan Llesiant 3** Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn **Cam 1** – Cefnogi pobl i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau **Cam 2** - Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a chefnogi'r gwaith o atal, ymyrryd yn gynnar a hunanreoli salwch.	**Cymunedau Cryf** **Pobl â Dyhead**	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2022

Enw'r Rhaglen / Project	Disgrifiad Byr o'r Rhaglen / Project a sut mae'n cefnogi'r Cynllun Corfforaethol.	Nod(au) Adfer Strategol a gefnogir	Amcan(ion) Llesiant (Ll) y mae'n ei/u g/cefnogi	Thema(au) Corfforaethol	Dyddiad Dechrau'r Rhaglen / Project	Dyddiad Disgwyliedig Cwblhau'r Rhaglen / Project
			Amcan Llesiant 1 – Gwella sgiliau, addysg a chyfleoedd cyflogaeth			
Datblygu'r Cynnig Gofalwyr i Ddinasyddion Casnewydd	Amcan y prosiect hwn yw gwella'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael i oedolion a gofalwyr ifanc yng Nghasnewydd. Bydd canlyniad(au) y prosiect hwn yn: • Sicrhau bod pob gofalwr yn gallu cael ei gyfeirio a chael mynediad i'r gwasanaeth(au) sydd eu hangen arnynt. • Cynnwys gofalwyr i sicrhau bod eu lles ariannol, corfforol ac emosiynol yn cael ei gefnogi drwy gydol y broses, • Galluogi cymorth integredig gan y Cyngor, iechyd, y trydydd sector ac elusennau i bob gofalwr.	**Ddim yn berthnasol**	**Amcan Llesiant 3** Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn **Cam 1** – Cefnogi pobl i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau **Cam 2** - Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a chefnogi'r gwaith o atal, ymyrryd yn gynnar a hunanreoli salwch.	**Cymunedau Cryf**	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2022

Amcanion a Chamau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth 2020/21

Mae'r Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol wedi pennu 5 Amcan i'w cyflawni yn 2020/21:

Amcan 1 - Atal ac Ymyrraeth Gynnar

Amcan 2 - Gweithio'n integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol

Amcan 3 - Comisiynu

Amcan 4 - Gofalwyr

Amcan 5 - Diogelu

Amcan 1		**Atal ac Ymyrraeth Gynnar**				
Canlyniad(au) Amcan		Byddwn yn cyfarwyddo ac yn cyfeirio'n effeithiol a phan fydd angen cymorth byddwn yn ymyrryd yn gynnar i atal dwysáu a dibyniaeth.				
Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei gefnogi?		**Amcan Llesiant 3** - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn				
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn eu cefnogi?		**Cymunedau Cryf**				
Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r Cam Gweithredu yn cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
1	Parhau i ddatblygu Cyswllt Cyntaf fel tîm amlddisgyblaethol, amlasiantaethol sy'n rheoli'r galw yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys integreiddio'r gwasanaeth Eiddilwch i'r Tîm Cyswllt Cyntaf.	Bydd integreiddio'r gwasanaeth Eiddilwch i'r Tîm Cyswllt Cyntaf yn gwella'r cyfeirio a'r modd y mae dinasyddion Casnewydd yn cyrchu gwasanaethau. Bydd hyn hefyd yn lleihau nifer y pwyntiau mynediad unigol ac yn gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth. Bydd y gwasanaeth hefyd yn gwella ei allu i wrthsefyll pwysau'r galw am wasanaethau ac yn sicrhau bod dull integredig yn cael ei ddarparu i ddinasyddion.	Ddim yn berthnasol	Rheolwr Gwasanaeth (DP)	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2022
2	Gweithredu'r Gwasanaeth Teleofal diwygiedig - Datblygu ymhellach argaeledd technoleg gynorthwyol fel ffordd o atal neu gefnogi cynllun gofal a chymorth.	Bydd cyflawni'r cam gweithredu hwn yn helpu defnyddwyr gwasanaeth i fyw'n annibynnol, gan gadw rheolaeth dros eu hiechyd a'u lles yn y tymor hir. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn rhoi sicrwydd i deuluoedd a gofalwyr y defnyddwyr gwasanaeth fel ffordd o atal a/neu gefnogi cynllun gofal.	Ddim yn berthnasol	Rheolwr Gwasanaeth (DP)	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2021
3	Datblygu ymagwedd ranbarthol i ddefnyddwyr gwasanaethau gael gafael ar a defnyddio'r	Mae hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r prosiect Taliadau Uniongyrchol a bydd yn cynnig:	Ddim yn berthnasol	Rheolwr Gwasanaeth (DP)	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2022

Amcan 1		**Atal ac Ymyrraeth Gynnar**				
Canlyniad(au) Amcan		Byddwn yn cyfarwyddo ac yn cyfeirio'n effeithiol a phan fydd angen cymorth byddwn yn ymyrryd yn gynnar i atal dwysáu a dibyniaeth.				
Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei gefnogi?		**Amcan Llesiant 3** - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn				
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn eu cefnogi?		**Cymunedau Cryf**				
Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r Cam Gweithredu yn cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
	gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol.	• Model gwasanaeth cyson wedi'i fabwysiadu ar draws y rhanbarth; • Gwella gwydnwch y model gwasanaeth ar gyfer dinasyddion Casnewydd yn y dyfodol; a • Sicrhau bod unigolion yn gallu cael mwy o annibyniaeth a chymorth wedi'i deilwra sy'n diwallu eu hanghenion.				

Amcan 2		**Gweithio'n integredig ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol**				
Canlyniad(au) Amcan		Datblygu dull integredig o ddarparu gofal a chymorth i bobl yng Nghasnewydd drwy sefydlu Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth.				
Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei gefnogi?		Amcan Llesiant 3 - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn				
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn eu cefnogi?		**Cymunedau Cryf**				
Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu**	**Canlyniad(au) Cam Gweithredu**	**A yw'r Cam Gweithredu yn cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb dros y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
1	Darparu cymorth iechyd a gofal cymdeithasol integredig i ddinasyddion Casnewydd.	Gall y Gwasanaethau i Oedolion gynnig gofal a chymorth i ddinasyddion Casnewydd sy'n eu galluogi i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn.	Ddim yn berthnasol	Pennaeth Gwasanaeth (CH)	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2022
2	Datblygu ac integreiddio'r fenter Cartrefi yn Gyntaf Rhanbarthol yn effeithiol i lwybr ysbytyau a chysoni ymhellach brosesau llif cleifion wrth eu rhyddhau o'r ysbyty.	Drwy gydweithio â'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid byddwn yn gallu: • Atal derbyniadau • Adeiladu ymhellach ar gynllunio cynnar ar gyfer rhyddhau cleifion er mwyn atal oedi y gellir ei osgoi	Ddim yn berthnasol	Rheolwr Gwasanaeth (JA)	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2022
3	Gwella'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc ag anableddau dysgu i bontio o Wasanaethau Plant i Wasanaethau Oedolion.	• Sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael cymorth wedi'i deilwra a fydd yn manteisio i'r eithaf ar eu cyfleoedd er mwyn sicrhau eu bod yn oedolion annibynnol. • Galluogi integreiddio'r Cyngor, iechyd a phartneriaid allweddol i gefnogi pobl ifanc drwy'r broses bontio. • Galluogi cynllunio ac ymwneud cynnar â phobl ifanc, eu teuluoedd a/neu	Ddim yn berthnasol	Rheolwr Gwasanaeth (HL)	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2022

Amcan 2		**Gweithio'n integredig ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol**				
Canlyniad(au) Amcan		Datblygu dull integredig o ddarparu gofal a chymorth i bobl yng Nghasnewydd drwy sefydlu Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth.				
Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei gefnogi?		Amcan Llesiant 3 - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn				
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn eu cefnogi?		**Cymunedau Cryf**				
Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu**	**Canlyniad(au) Cam Gweithredu**	**A yw'r Cam Gweithredu yn cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb dros y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
		ofalwyr i'w cefnogi drwy gydol y broses bontio.				

Amcan 3		**Comisiynu**				
Canlyniad(au) Amcan		Caffael a rheoli contractau gwasanaeth sy'n darparu gwasanaethau cost effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel yn seiliedig ar dystiolaeth o angen cymunedol a gwybodaeth ynghylch y farchnad.				
Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/eu g/cefnogi?		**Amcan Llesiant 3** - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn				
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		**Cymunedau Cryf**				
Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r Cam Gweithredu yn cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
1	Asesu effaith Covid 19 ar gynaliadwyedd hirdymor darparwyr gwasanaethau yn y dyfodol gan sicrhau bod y farchnad yn gallu cynnig digon o gapasiti ac amrywiaeth yn y farchnad.	Bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth o'r effaith y mae Covid 19 wedi'i chael ar y sector gofal cymdeithasol a defnyddwyr gwasanaethau yng Nghasnewydd. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn pennucynnig y farchnad yn y dyfodol i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn pecynnau gofal a chymorth cynaliadwy o	**<u>Nod Strategol 3</u>** Asesu effaith a chynaliadwyedd hirdymor y sector gofal cymdeithasol yng Nghasnewydd gan lywio gofynion y gwasanaeth yn y dyfodol.	Rheolwr Gwasanaeth (JJ)	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2022

Amcan 3		**Comisiynu**				
Canlyniad(au) Amcan		Caffael a rheoli contractau gwasanaeth sy'n darparu gwasanaethau cost effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel yn seiliedig ar dystiolaeth o angen cymunedol a gwybodaeth ynghylch y farchnad.				
Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/eu g/cefnogi?		**Amcan Llesiant 3** - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn				
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		**Cymunedau Cryf**				
Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r Cam Gweithredu yn cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
		ansawdd uchel sy'n galluogi byw'n iach ac yn annibynnol.				
2	Monitro ansawdd gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni yn erbyn canlyniadau y cytunwyd arnynt a'u bod yn cynnig gwerth am arian.	Gall darparwyr gwasanaethau ddarparu gwasanaethau cynaliadwy sy'n bodloni'r safonau a'r gofynion ansawdd angenrheidiol a nodir yn eu cytundebau.	Ddim yn berthnasol	Rheolwr Gwasanaeth (JJ)	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2022
3	Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a phartneriaid yr Awdurdod Lleol i ddatblygu contractau a phrotocolau monitro cyffredin.	Bydd cyflawni'r cam gweithredu hwn yn sicrhau dull cyson o sefydlu a monitro trefniadau cytundebol yng Nghasnewydd.	Ddim yn berthnasol	Rheolwr Gwasanaeth (JJ)	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2022
4	Datblygu ymhellach y swyddogaeth Comisiynu Pobl i oruchwylio'r holl weithgarwch comisiynu a chontractiol o fewn y Gyfarwyddiaeth. Monitro'r Swyddogaeth Comisiynu Pobl er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ychwanegu gwerth ar draws y gwasanaeth cyfan.	Bydd cyflawni'r cam gweithredu hwn yn ceisio sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei ddarparu ar draws y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a phlant gan sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a gofalwyr yn cael y pecynnau cymorth gofal angenrheidiol i fyw'n iach, yn annibynnol ac yn wydn.	Ddim yn berthnasol	Rheolwr Gwasanaeth (JJ)	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2022
5	Datblygu gwasanaeth Penodeiaeth ranbarthol drwy	Bydd canlyniad(au) y cam gweithredu hwn yn sicrhau:	Ddim yn berthnasol	Rheolwr Gwasanaeth (JJ)	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2022

Amcan 3	**Comisiynu**					
Canlyniad(au) Amcan	Caffael a rheoli contractau gwasanaeth sy'n darparu gwasanaethau cost effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel yn seiliedig ar dystiolaeth o angen cymunedol a gwybodaeth ynghylch y farchnad.					
Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/eu g/cefnogi?	**Amcan Llesiant 3** - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn					
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?	**Cymunedau Cryf**					
Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r Cam Gweithredu yn cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
	gydweithio ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill.	• Mabwysiedir model gwasanaeth cyson ar draws y rhanbarth ar gyfer pob dinesydd. • Gwella mynediad ac effeithlonrwydd y gwasanaeth Penodeiaeth i ddinasyddion Casnewydd.				
6	Strategaeth Byw'n Annibynnol – Hwyluso'r gwaith o symud 5 o bobl ag anableddau dysgu ymlaen i ddatblygiad newydd yn Herbert Road.	Bydd y cam gweithredu hwn yn galluogi defnyddwyr gwasanaeth ag anableddau dysgu i fyw bywydau iach ac annibynnol yn y gymuned.	Ddim yn berthnasol	Rheolwr Gwasanaeth (HL)	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2021
7	Parhau i ddarparu a datblygu darpariaeth fewnol	Parhau i ddarparu a datblygu darpariaeth fewnol lle bo hynny'n briodol ac yn gost-effeithiol.	Ddim yn berthnasol	Rheolwr Gwasanaeth (GC)	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2022

Amcan 4	**Gofalwyr**					
Canlyniad(au) Amcan	Cyflawni cyfrifoldeb CDC i ofalwyr fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant gan gynnig cymorth a lleihau nifer y gofalwyr sy'n methu.					
Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?	**Amcan Llesiant 3** - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn					
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi	**Cymunedau Cryf**					
Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r Cam Gweithredu yn cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
1	Parhau i ddatblygu Rhwydwaith Gofalwyr Casnewydd i hwyluso ymgysylltu a chyfleoedd i ddarparu gwybodaeth arbenigol	Bydd cyflawni'r cam gweithredu hwn yn galluogi'r Gwasanaethau i Oedolion gefnogi gofalwyr a darparu cymorth integredig a fydd yn atal gofalwyr rhag methu.	Ddim yn berthnasol	Rheolwr Gwasanaeth (DP)	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2022
2	Datblygu cynnig gwasanaeth diwygiedig ar gyfer oedolion sy'n ofalwyr	• Sicrhau bod oedolion sy'n ofalwyr yn gallu cael eu cyfeirio a chael mynediad i'r gwasanaeth(au) sydd eu hangen arnynt. • Cynnwys gofalwyr i sicrhau bod eu lles ariannol, corfforol ac emosiynol yn cael ei gefnogi drwy gydol y broses, • Galluogi cymorth integredig gan y Cyngor, iechyd, y trydydd sector ac elusennau i bob gofalwr.	Ddim yn berthnasol	Rheolwr Gwasanaeth (DP)	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2021
3	Datblygu cynnig gwasanaeth diwygiedig i ofalwyr ifanc mewn partneriaeth â Barnardo's	• Sicrhau bod gofalwyr ifanc yn gallu cael eu cyfeirio a chael gafael ar y gwasanaeth(au) sydd eu hangen arnynt. • Cynnwys gofalwyr i sicrhau bod eu lles ariannol, corfforol ac emosiynol yn cael ei gefnogi drwyddi draw, Galluogi cymorth integredig gan y Cyngor, iechyd,	Ddim yn berthnasol	Rheolwr Gwasanaeth (DP)	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2021

		y trydydd sector ac elusennau i bob gofalwr.				

Amcan 5		**Diogelu**				
Canlyniad(au) Amcan		Gwella trefniadau diogelu sy'n amddiffyn plant ac oedolion ym mhob agwedd ar swyddogaethau a dyletswyddau gwasanaethau'r Cyngor.				
Pa Amcanion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		**Amcan Llesiant 3** - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn				
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		**Cymunedau Cryf**				
Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r Cam Gweithredu yn Cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
1	Gweithredu prosesau newydd ar gyfer Trefniadau Diogelu Rhyddid a gyflwynir ym mis Hydref 2020.	Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor weithredu'r Trefniadau Diogelu Rhyddid ar gyfer dinasyddion Casnewydd. Bydd cyflawni'r cam gweithredu hwn yn sicrhau bod prosesau'r Cyngor yn bodloni'r gofynion deddfwriaethol newydd hyn.	Ddim yn berthnasol	Pennaeth Diogelu Corfforaethol (MR)	1 Ebrill 2020	31 Rhagfyr 2020
2	Parhau i gefnogi a grymuso dinasyddion drwy'r broses diogelu oedolion.	Bydd cyflawni'r cam gweithredu hwn yn sicrhau bod holl Ddinasyddion, Partneriaid, Aelodau'r Cyngor a Swyddogion Casnewydd yn gallu codi pryderon a materion diogelu a bod yn hyderus yr ymchwilir i'r rhain yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant,	Ddim yn berthnasol	Pennaeth Diogelu Corfforaethol (MR)	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2021
2.1	Darparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o'r Trefniadau Diogelu Rhyddid ar gyfer pob ymarferydd a swyddog.	Bydd cyflawni'r cam gweithredu hwn yn sicrhau bod ymarferwyr a swyddogion yn ymwybodol o'u rôl	Ddim yn berthnasol	Pennaeth Diogelu Corfforaethol (MR)	1 Ebrill 2020	31 Tachwedd 2020

Amcan 5	**Diogelu**					
Canlyniad(au) Amcan	Gwella trefniadau diogelu sy'n amddiffyn plant ac oedolion ym mhob agwedd ar swyddogaethau a dyletswyddau gwasanaethau'r Cyngor.					
Pa Amcanion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?	**Amcan Llesiant 3** - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn					
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?	**Cymunedau Cryf**					
Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r Cam Gweithredu yn Cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
		a'u cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth TDRh newydd. Bydd hyn hefyd yn atal diffyg cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd.				
2.2	Darparu hyfforddiant a mynediad ymarferwyr i Ap Diogelu Llywodraeth Cymru drwy ffonau symudol a chyfrifiaduron y cyngor.	Bydd cyflawni'r cam gweithredu hwn yn sicrhau bod ymarferwyr yn ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau diogelu. Bydd yr app newydd yn gwella hygyrchedd ar gyfer staff ac i ddod o hyd i'r wybodaeth angenrheidiol sydd ei hangen arnynt wrth gyflawni eu dyletswyddau.	Ddim yn berthnasol	Pennaeth Diogelu Corfforaethol (MR)	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2021
3	Cyfrannu at Ganllawiau Diogelu Oedolion Cymru Gyfan	Cyfrannu at Ganllawiau newydd Diogelu Oedolion / Plant Cymru Gyfan.	Ddim yn berthnasol	Pennaeth Diogelu Corfforaethol (MR)	1 Ebrill 2019	31 Rhagfyr 2020
4	Datblygu Gwefan	Datblygu gwybodaeth gwefannau ymhellach a mynediad ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.	Ddim yn berthnasol	Pennaeth Diogelu Corfforaethol (MR)	1 Ebrill 2019	31 Rhagfyr 2020

Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol 2020/21

Yn 2020/21, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Fframwaith Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol newydd. Ni fydd pob mesur perfformiad ar gael o 1 Ebrill a phennir targedau wrth i'r Cyngor weithredu'r mesurau / meincnodi'r data newydd.

Mesur Perfformiad	Gwybodaeth Genedlaethol / Lleol / Rheoli	Amcan y Cynllun Gwasanaeth (CG)	Gwirioneddol 2018/19	Targed 2018/19	Gwirioneddol 2019/20	Targed 2020/21
AD/002 – Y nifer lle darparwyd cyngor a chymorth	Cenedlaethol	Amcan 1	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	**I'w gadarnhau**
AD/004 – Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn	Cenedlaethol	Amcan 1	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	**Mesur Newydd**
AD/006b – Derbyniwyd cynnig gweithredol Cymraeg	Cenedlaethol	Amcan 1	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	**Mesur Newydd**
AD/010 – Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn	Cenedlaethol	Amcan 1	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	**Mesur Newydd**

Mesur Perfformiad	Gwybodaeth Genedlaethol / Lleol / Rheoli	Amcan y Cynllun Gwasanaeth (CG)	Gwirioneddol 2018/19	Targed 2018/19	Gwirioneddol 2019/20	Targed 2020/21
AD/011a – Nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a oedd yn lleihau'r angen am gymorth	Cenedlaethol	Amcan 1	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	**Mesur Newydd**
AD/011b – Nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a oedd yn cynnal yr angen ar gyfer yr un lefel o gymorth.	Cenedlaethol	Amcan 1	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	**Mesur Newydd**
AD/011c – Nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a oedd yn lliniaru'r angen am gymorth.	Cenedlaethol	Amcan 1	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	**Mesur Newydd**
AD/012 – Nifer yr oedolion sydd â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth.	Cenedlaethol	Amcan 1	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	**Mesur Newydd**
AD/013 – Cyfanswm nifer yr oedolion ag anghenion cymwys am ofal a chymorth a gynhelir gan Daliadau Uniongyrchol ar 31 Mawrth	Cenedlaethol	Amcan 1	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	**Mesur Newydd**

Mesur Perfformiad	Gwybodaeth Genedlaethol / Lleol / Rheoli	Amcan y Cynllun Gwasanaeth (CG)	Gwirioneddol 2018/19	Targed 2018/19	Gwirioneddol 2019/20	Targed 2020/21
Cenedlaethol (Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol, MPGC) - Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd cyn pen saith diwrnod gwaith	Cenedlaethol	**Amcan 5**	98.9%	**90%**	**95%**	**90%**

Geirfa

Cenedlaethol – Casglwyd ac adroddwyd i sefydliad allanol fel Llywodraeth Cymru / Estyn / CLlLC ac ati i feincnodi / cymharu

Lleol – wedi'i gasglu a'i adrodd yn benodol gan CDC / Gwasanaeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcan.

Gwybodaeth Reoli – Casglwyd ac adroddwyd i gefnogi'r gwaith o ddarparu gweithgaredd a/neu wasanaeth penodol.

Risgiau Presennol y Gwasanaeth 2020/21

Enw'r Risg	Disgrifiad o'r Risg	Perchennog y Risg	Risg Gorfforaethol / Risg Gwasanaeth	Risg sy'n gysylltiedig ag Amcan Llesiant	Risg sy'n gysylltiedig â Thema Gorfforaethol?	Risg sy'n gysylltiedig ag Amcan y Gwasanaeth?	Sgôr Risg Gynhenid (0-25)	Sgôr Risg Targed (0-25)
Deddfwriaeth Trefniadau Diogelu Rhyddid	Yn 2020 bydd deddfwriaeth newydd y Trefniadau Diogelu Rhyddid (TDRh) yn cael ei phasio yn lle'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (TDRhCRh) presennol.	Rheolwr Gwasanaeth (HL)	Risg Gwasanaeth	Amcan Llesiant 3	Cymunedau Cryf (Gofal Cymdeithasol)	Diogelu	12	4
Pwysau ar y Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol	Mae mwy o bwysau ar y Gwasanaethau i Oedolion i ddarparu gwasanaethau i oedolion sydd ag anghenion cymhleth a pharhaol. Gyda chynnydd yn y galw / nifer yr atgyfeiriadau a phecynnau gofal, mae'r Cyngor wedi gweld cynnydd mewn costau a hynny yng nghyd-destun cyllidebau sy'n tynhau. Mae gofynion statudol ychwanegol hefyd i ddiogelu oedolion yn ein gofal ac atal perygl o niwed, anaf neu golli bywyd.	Rheolwr Gwasanaeth (JJ)	Risg Gorfforaethol	Amcan Llesiant 3	Cymunedau Cryf (Gofal Cymdeithasol)	Ddim yn berthnasol	20	10

Enw'r Risg	Disgrifiad o'r Risg	Perchennog y Risg	Risg Gorfforaethol / Risg Gwasanaeth	Risg sy'n gysylltiedig ag Amcan Llesiant	Risg sy'n gysylltiedig â Thema Gorfforaethol?	Risg sy'n gysylltiedig ag Amcan y Gwasanaeth?	Sgôr Risg Gynhenid (0-25)	Sgôr Risg Targed (0-25)
Risg Diogelu	Sicrhau bod y Cyngor yn diogelu oedolion, plant a gofalwyr fel rhan o'i ddyletswydd statudol.	Pennaeth Diogelu Corfforaethol	Risg Gorfforaethol	Amcan Llesiant 3	Cymunedau Cryf (Gofal Cymdeithasol)	Ddim yn berthnasol	20	4
Sefydlogrwydd Darparwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Mae'r Cyngor ag angen cymorth gan ddarparwyr allanol i ddarparu pecynnau gofal i oedolion (preswyl / Dibreswyl). Mae'r farchnad bresennol ar gyfer darparwyr allanol yn gyfnewidiol oherwydd y costau cynyddol i ddarparu gofal, cynnal cartrefi a staffio sy'n bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoliadol.	Rheolwr Gwasanaeth (JJ)	Risg Gorfforaethol	Amcan Llesiant 3	Cymunedau Cryf (Gofal Cymdeithasol)	Ddim yn berthnasol	20	6